# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD MAWRTH, 12FED TACHWEDD, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch a ni

Pwynt Cyswllt

**Iwan Edwards**

**01286 679665**

**IwanEdwards@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 4 Tachwedd 2024)

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Annwen Hughes | Linda Ann Jones |
| Olaf Cai Larsen | Edgar Wyn Owen |
| Llio Elenid Owen | Arwyn Herald Roberts |
| Beca Roberts | Ioan Thomas |
| Sian Williams | John Pughe |

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Anwen J. Davies | Anne Lloyd-Jones |
| Eryl Jones-Williams | Dewi Owen |

## Llafur /Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Mehefin, 2024 fel rhai cywir

**5. ADRODDIAD DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL** 9 - 13

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am sylwadau er mwyn llunio ymateb i ymgynghoriad adroddiad drafft Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**6. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU** 14 - 26

I ystyried y trefniadau hyfforddiant, cynnig sylwadau a cymeradwyo y camau a gynigir.

**7. GWYBODAETH I GYNGHORWYR** 27 - 31

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am sylwadau ar y bwriad i geisio rhesymoli trefniadau cyflwyno gwybodaeth i Gynghorwyr.

**8. FFRAMWAITH HUNANWERTHUSO CEFNOGAETH I GYNHORWYR CYMRU** 32 - 53

I ystyried yr adroddiad, cynnig sylwadau, a derbyn yr hyn a gynigir.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH, 18/06/24

**YN BRESENNOL:**

**Cynghorwyr:**
Anne Lloyd-Jones (Cadeirydd), Stephen Churchman, Anwen Hughes, Eryl Jones-Williams, Olaf Cai Larsen, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Ioan Thomas, Sian Williams a Menna Trenholme (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol).

**Swyddogion:**
Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Ian Jones (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth), Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. PENODI IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Sian William yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am y flwyddyn 2024/25.

## 2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Linda Ann Jones, Llio Elenid Owen, Arwyn Herald Roberts a Beca Roberts.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 4. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 5. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Chwefror, 2024 fel rhai cywir.

## 6. DRAFFT O ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

**PENDERFYNIAD**
**Derbyn yr adroddiad gan gytuno i wneud man addasiadau cyn ei argymell i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei fabwysiadu.**

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried cynnwys yr adroddiad blynyddol a'i argymell i'w fabwysiadu gan y Cyngor Llawn. Eglurwyd bod yr adroddiad yn amlinellu prif flaenoriaethau'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth am y flwyddyn i ddod yn ogystal ag adrodd ar y datblygiadau a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Esboniwyd bod yr adroddiad ychydig yn wahanol eleni a mynegwyd balchder yn ei gynnwys a'i fformat.

Tynnwyd sylw at gynnwys yr adroddiad a'r meysydd gafodd eu blaenoriaethu yn 2023/24 megis:

- Diogelwch a Chefnogaeth i Gynghorwyr oedd yn cynnwys yr elfen iechyd a lles.
- Hyfforddiant i Gynghorwyr a'r sgyrsiau datblygiad personol gafodd eu cynnal.
- Trefniadau Craffu
- Symud at fod yn Gyngor di-bapur

Cyfeiriwyd hefyd yn yr adroddiad ar nifer o lwyddiannau 2023/24, er enghraifft yr adborth bositif iawn a dderbyniodd y Tîm Democratiaeth gan Gynghorwyr, niferoedd y Pwyllgorau gafodd eu gweinyddu a'r rhaglen lawn o hyfforddiant gafodd ei chynnal a'i datblygu.

I gloi cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth at flaenoriaethau 2024/25 oedd yn cynnwys:

- Adeiladu ar drefniadau diogelwch a chefnogaeth i Gynghorwyr
- Rhesymoli'r rhaglen hyfforddiant a'r rhaglen briffio ar gyfer Cynghorwyr
- Gweithredu ar newidiadau i drefniadau Craffu er mwyn cael y gorau allan ohono
- Amlygu'r gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:

- Credwyd bod yr adroddiad yn ffeithiol a cadarnhaol iawn a broliwyd y fformat. Gwnaethpwyd rhai sylwadau am faint a lliw'r ffont mewn rhannau o'r adroddiad gan amlygu ei fod yn anodd ei ddarllen mewn mannau.
- Diolchwyd i'r Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith, y Tîm Democratiaeth a Galw Gwynedd am y cymorth penodol yn dilyn dirywiad sylweddol yng ngolwg un o'r Aelodau.
- Cwestiynwyd y datganiad bod 29 o Gynghorwyr yn parhau i dderbyn copïau papur dan y rhan Cyngor di-papur gan fynegi bod y nifer yma'n ymddangos un uchel.
- Gofynnwyd faint o Gynghorwyr sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant craidd.
- Holwyd ynghylch y trefniadau Craffu ac os bydd trefn yn cael ei sefydlu o fonitro faint o wahaniaeth mae Craffu yn ei gael yn ymarferol o ran y broses o greu penderfyniadau yn y Cyngor. Pryderwyd bod y drefn Craffu yn cael ei weld fel ymarfer papur a'i bod yn bwysig dangos bod Craffu yn cael effaith bositif a'n cael ei ystyried ar lefel Cabinet.

Mewn ymateb i'r sylwadau:

- Nodwyd nad yw'n broblem addasu'r ffont a'r lliwiau cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor Llawn a croesawyd y sylw.
- Cydnabuwyd bod angen ail eirio'r datganiad am y niferoedd sy'n derbyn copïau papur o raglenni Pwyllgorau gan fod y ffigwr bellach wedi lleihau ymhellach. Cytunwyd bod angen ail eirio er mwyn amlygu'r lleihad sylweddol sydd wedi bod yn y niferoedd hyn.
- Eglurwyd bod adroddiad nes mlaen yn y Pwyllgor ar hyfforddiant a bydd yr adroddiad yno yn manylu ar yr ymdrech i gynyddu'r niferoedd sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant craidd.
- Adroddwyd y bydd adroddiad blynyddol Craffu yn cael ei gyflwyno yn y Cyngor Llawn nesaf a bydd yr adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth fanwl am effaith Craffu ac yn rhoi enghreifftiau o'r effaith. Cydnabuwyd bod yr adroddiad yma yn crynhoi bod adolygiad wedi digwydd yn hytrach na rhoi manylder.

## 7. HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD AELODAU

**PENDERFYNWYD:**
**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd.**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan amlygu bod saith maes craidd wedi eu hadnabod fel hyfforddiant allweddol i Aelodau sydd yn ymwneud a chyfreithiau. Nodwyd bod ffocws ar yr

hyfforddiant craidd wedi ei roi yn y cyfarfod diweddaf gan dynnu sylw at y niferoedd isel o Aelodau sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hyn. Amlygwyd bod sylw wedi ei roi i'r mater yma dros y misoedd diwethaf a bod dilyniant i'r Arweinyddion Grwpiau annog Aelodau i gwblhau'r hyfforddiant craidd. Nodwyd nad oedd cynnydd i'w weld eto yn y niferoedd sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant am ei bod braidd yn gynamserol ond bod nifer wedi cysylltu i holi am fanylion pellach.

Tywyswyd y Pwyllgor drwy'r adroddiad gan dynnu sylw at ffurf newydd y rhaglen ddysgu i Aelodau sef yr elfen hyfforddiant craidd, hyfforddiant arall a chyfweliadau datblygiad personol. Amlygwyd pryderon megis cyrsiau yn cael eu rhedeg yn hanner gwag am nad oes diogon o Aelodau yn cofrestru neu ddim yn troi fyny i ddigwyddiadau. Soniwyd am y bwriad i recordio teitlau craidd a'u cynnwys ar y Fewnrwyd Aelodau ond pwysleisiwyd bod angen i Aelodau hysbysu'r gwasanaeth Dysgu a Datblygu ar ôl iddynt gwblhau cwrs.

Tynnwyd sylw at faterion eraill megis y gwaith ar y Fframwaith Hunanwerthuso Cefnogaeth i Gynghorwyr fydd yn cychwyn yn y misoedd nesaf a'r holiadur fydd yn cael ei anfon i Aelodau dros gyfnod yr Haf am gynnwys y rhaglen hyfforddiant. Cyfeiriwyd i gloi at ran 2.17 o'r adroddiad gan nodi un cywiriad sef y dylai Cynghorwyr gyfeirio enghreifftiau penodol o ddiffyg ymateb i ymholiadau gan Swyddogion y Cyngor at Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol yn hytrach na'r Prif Weithredwr. Nodwyd bod Geraint Owen yn cymryd cyfrifoldeb dros hyn oherwydd ei gefndir yn y maes yn dilyn i bryderon nifer o aelodau gan eu hamlygu am y mater o ddiffyg ymateb i'w ymholiadau gan Swyddogion y Cyngor.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:
- Diolchwyd am yr adroddiad gan nodi bod amryw o faterion pwysig wedi eu cynnwys.
- Amlygwyd y pwysigrwydd i Aelodau droi fyny i gyrsiau gan gyfeirio at enghraifft benodol pan ddaru 4 Aelod droi fyny allan o 11 oedd yn wastraff adnoddau ac amser Swyddogion.
- Mynegwyd bod y cwrs Sgiliau Cadeirio yn arbennig o dda ac anogwyd yr Aelodau i gymryd mantais o'r cyrsiau sydd ar gael.
- Cyfeiriwyd at y sesiynau 'sgyrsiau dros baned' i Gynghorwyr sy'n ferched gan nodi eu bod yn werthfawr, yn enwedig i Aelodau newydd.
- Holwyd am ystadegau niferoedd yr Aelodau sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant craidd.
- Cwestiynwyd pe byddai mwy o Aelodau yn troi fyny i hyfforddiant sy'n cael eu cynnal yn ddwyieithog yn hytrach na Chymraeg yn unig.
- Gwnaethpwyd sylw ynglŷn ag adrodd ar ymddiheuriadau pan fo gwrthdaro e.e. Pwyllgor y Cyngor â chyfarfod Corff Allanol yn cael eu cynnal ar yr un amser a holwyd os oes diweddariad ar y mater yma.

Mewn ymateb i'r sylwadau:
- Ategwyd bod Aelodau sydd ddim yn troi fyny i hyfforddiant yn amsugno adnoddau ac amser prin Prif Swyddogion y Cyngor.
- Nodwyd y gall yr ystadegau ar niferoedd yr Aelodau sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant craidd gael eu darparu. Adroddwyd y bydd unrhyw ddiweddariadau yn cael eu cylchredeg i'r Aelodau. Nodwyd bod y wybodaeth wedi ei gynnwys yn adroddiad mis Chwefror o'r Pwyllgor hwn a gan nad oedd llawer o newid i'r ffigyrau ni chafodd y manylion eu cynnwys yn yr adroddiad yma.
- Credwyd bod y data yn dangos nad yw iaith yr hyfforddiant yn effeithio ar fynychwyr a bod cyrsiau yn cael eu rhedeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog a bod cyfieithydd yn bresennol pe bai rywun eisiau gwrando ar y Saesneg.
- Nodwyd nad oes diweddariad ar y ffordd mae ymddiheuriadau o gyfarfodydd yn cael eu cofnodi ond pwysleisiwyd bod y Tîm Democratiaeth yn gwneud eu gorau i osgoi gwrthdaro ac yn trafod efo'r tîm Dysgu a Datblygu yn ogystal â sefydliadau allanol fel y Parc ac Awdurdod yr Heddlu. Amlygwyd bod dros 50 o Gyrff Allanol a'i bod yn amhosib

osgoi gwrthdaro ymhob achlysur. Ychwanegwyd pan fydd cyfle bod y Tîm yn dymuno rhoi sylw i sut mae ymddiheuriadau ac absenoldebau yn cael eu cofnodi ar y system.

**8. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

**PENDERFYNWYD:**
**Derbyn yr adroddiad.**

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer 2024/25. Eglurwyd bod ymholiadau wedi cyrraedd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith a'r Tîm Democratiaeth yn ddiweddar am faterion cydnabyddiaeth ariannol a phryderwyd bod gwybodaeth ddim yn cael ei gyfleu neu fod angen tynnu sylw Aelodau at ambell fater. Amlygwyd y gydnabyddiaeth ariannol (cyflog) sylfaenol gyfredol ar gyfer yr Aelodau sef £18,666 y flwyddyn. Eglurwyd bod hyn yn gynnydd o ychydig dros £1,000 ar dâl cydnabyddiaeth 2023/24. Ychwanegwyd y dylai Aelodau gysylltu efo'u Cynorthwyydd Grŵp Gwleidyddol am gwestiynau ynglŷn â'u P60.

Nodwyd bod y wybodaeth yma eisoes wedi ei gyfathrebu trwy'r Mewnrwyd Aelodau ac drwy'r Bwletin Aelodau wythnosol. I gloi nodwyd mai bwriad yr adroddiad yw codi ymwybyddiaeth o'r sefyllfa ariannol a'r gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:

- Mynegwyd barn y dylai rhifau ffôn Cadeiryddion Pwyllgorau fod ar gael e.e. pa bai aelod o'r cyhoedd neu Gynghorydd arall efo cwestiwn i Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal. Pryderwyd nad oedd Cadeiryddion ar gael i ymateb i alwadau a credwyd y dylent fod ar gael.
- Ychwanegwyd ei bod yn anodd cael gafael ar Aelodau o Gyngor Gwynedd sydd wedi eu penodi ar Fyrddau neu Gyrff Allanol. Amlygwyd bod hyn yn rhwystredig pan eisiau gwybodaeth am fater penodol.
- Mynegwyd safbwynt na ddylid gorfodi Aelodau i rannu eu rhifau ffôn gan nodi bod nifer yn llai tebygol o'i rhyddhau yn ddiweddar oherwydd materion diogelwch a bod llawer yn dueddol o ddefnyddio e-byst fel ffordd hwylus o gysylltu.
- Holwyd ynglŷn â thaliadau costau cerbydau trydan, sydd yn costio llai i'w rhedeg na cherbydau tanwydd traddodiadol ond eu bod yn derbyn yr un raddfa costau teithio a'r ceir traddodiadol.

Mewn ymateb i'r sylwadau:

- Ategwyd bod cyfeiriadau e-bost Cynghorwyd yn cael eu cynnwys ar safle we'r Cyngor ond nad yw'n ofynnol cyhoeddi eu cyfeiriad na'u rhifau ffôn. Amlygwyd bod rhifau ffôn y Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth ar flaen Rhaglenni Pwyllgorau a bydd y swyddogion hynny yn pasio unrhyw ymholiad perthnasol ymlaen i'r Cadeiryddion Pwyllgorau.
- Adroddwyd nad yw'r mwyafrif o Gyrff Allanol yn talu'r Aelodau a bod rhai cyfarfodydd yn gaeedig oherwydd sensitifrwydd masnachol a bod rhaid i Aelodau barchu'r rheolau hyn cyn belled â'u bod yn rheolau rhesymol. Nodwyd bod mwyafrif o faterion y Cyrff Allanol yn rai agored.
- Cadarnhawyd nad oes newidiadau i'r taliadau costau teithio a bod graddfeydd ceir trydan yr un fath a cheir disel/petrol. Eglurwyd bod hyn yn bennaf oherwydd y gydnabyddiaeth bod costau cynnal a chadw ceir trydan yn dueddol o fod yn uwch er bod y costau rhedeg yn is. Cydnabuwyd bod trefniadau cenedlaethol yn cael eu dilyn ar hyn o bryd ac efallai bydd newid yn y dyfodol pan fydd y dechnoleg yn dod yn fwy poblogaidd.
-

Dechreuodd y cyfarfod am 13:00 a daeth i ben am 14:05.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 12 Tachwedd 2024 |
| **Pwnc** | Adroddiad Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am sylwadau er mwyn llunio ymateb i ymgynghoriad adroddiad drafft Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol. |
| **Swyddog Cyswllt:** | Vera Jones,<br>Rheolwr Democratiaeth ac Iaith |

**Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

1. Mae 'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cyhoeddi adroddiad drafft ym mis Hydref yn flynyddol. Mae'n amlinellu'r bwriad ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Cyhoeddwyd y drafft ddechau mis Hydref 2024 yn amlinellu'r newidiadau a fwriedir ar gyfer blwyddyn Ariannol 2025-26. Mae cyfle i ymateb i'r argymhellion sy'n cael eu cyflwyno erbyn **29ain o Dachwedd, 2024**.

2. Bydd y newidiadau drafft, petaent yn dod i rym yn cael eu cyhoeddi erbyn 28 Chwefror 2025 ac yn weithredol ar gyfer blwyddyn Ariannol 2025-26, sef o Ebrill 1af 2025. Hwn fydd adroddiad olaf Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Cymru) cyn i swyddogaethau'r Panel drosglwyddo i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o 1af Ebrill 2025.

**Rôl y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

3. Cyfrifoldeb y Panel yw gosod lefelau cyflogau Cynghorwyr Cymru, ac mae eu rôl yn hollol annibynnol. Ers ei sefydlu, mae'r Panel wedi mynegi'n gyson ac yn gadarn nad yw democratiaeth leol a llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus yn ddi-gost a bod angen rhoi gwerth iddynt os ydym am alluogi i bawb gymryd rhan. Mae'n bwysig hyrwyddo diwylliant sy'n annog unigolion i dderbyn cydnabyddiaeth tâl i sicrhau y gall pobl o bob rhan o gymdeithas gymryd rhan yn hyderus yn ein democratiaeth.

4. Yn ogystal, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel ystyried goblygiadau ariannol ei benderfyniadau. Mae'r Panel wedi gofod ceisio cydbwyso y ddwy elfen ochor yn ochor yn flynyddol wrth wneud ei benderfyniadau.

**Prif Benderfyniadau'r Panel sy'n berthnasol i'r Cyngor**

5. Mae copi llawn o'r adroddiad ar ei ffurf drafft i'w gael ar y ddolen isod.

   [Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol drafft 2025 i 2026 | LLYW.CYMRU]

6. Noder fod y Panel wedi newid eu dull o adrodd yn y blynyddoedd diwethaf, gan adrodd ar y newidiadau yn unig yn eu adroddiadau blynyddol. Gall hyn fod yn anodd i'w ddilyn ar adegau gan fod angen mynd yn ol i adroddiadau blynyddoedd blaenorol i ddeall y sefyllfa'n llawn. Er i'r Panel gydnabod fod angen edrych ar hyn eto, mae'n debyg mai mater i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru fydd hynny bellach.

Tâl ar gyfer Aelodau etholedig.

7. Mae'r cyflog sylfaenol, sy'n cael ei dalu i bob aelod etholedig, yn dâl am y cyfrifoldeb o gynrychioli'r gymuned a chymryd rhan yn y gwaith craffu, rheoleiddio a swyddogaethau cysylltiedig llywodraethu lleol. Mae'n seiliedig ar swm sydd gyfwerth â thri diwrnod llawn yr wythnos. Mae'r Panel yn adolygu'r ymrwymiad amser hwn yn rheolaidd, ac ni chynigir unrhyw newidiadau ar gyfer 2025 i 2026.

8. Mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer blwyddyn ariannol 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026, ei fod yn briodol i gadw cysylltiad rhwng cyflog sylfaenol cynghorwyr a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr.

9. Y cyflog sylfaenol fydd **£19,771.** £18,666 yw'r taliad ar gyfer 2024/25.

10. Noder y bydd pob Aelod Etholedig yn derbyn y swm uchod. Os oes aelod unigol yn dymuno peidio derbyn y swm neu gyfran ohono, yna mae'n rhaid iddynt ohebu yn ysgrifenedig fel unigolyn gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth.

Uwch Gyflogau ar gyfer Aelodau etholedig.

11. Nid oes newid i'r niferoedd o uwch Gyflogau y gellir eu talu. 18 yw'r uchafswm o uwch gyflogau y gellir eu talu i awdurdodau Grwp B, sy'n cynnwys Cyngor Gwynedd.

12. Mae'r tabl isod yn dangos manylion taliadau Grwp B ar gyfer 2025-26.

| | Tâl cydnabyddiaeth tebygol ar gyfer 2025/26 | Tâl Cydnabyddiaeth ar gyfer 2024/25 |
|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol (yn daladwy i bob aelod etholedig) | £19,771 | £18,666 |
| Band 1: arweinydd | £66,727 | £62,998 |
| Band 1: dirprwy arweinydd | £46,709 | £44,099 |
| Band 2: aelodau gweithredol | £40,036 | £37,799 |
| Band 3: cadeiryddion pwyllgorau (os ydynt yn cael tâl cydnabyddiaeth) | £29,657 | £27,999 |
| Band 4: arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf | £29,657 | £27,999 |
| Band 5: arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill | £23,726 | £22,406 |

13. Yn unol â phenderfyniad y Cyngor llawn, telir yr uwch Gyflogau fel a ganlyn: Arweinydd, Dirprwy Arweinydd, 8 Aelod Cabinet, Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu x 3, Cadeiryddion Pwyllgorau Cynllunio, Trwyddedu, Pensiynau, ac Arweinydd yr wrth-blaid fwyaf. Nid oes newid sylweddol wedi bod yn llwyth gwaith unrhyw bwyllgor i ystyried newid yr uchod.

14. Nid yw swyddi'r pennaeth dinesig a'r dirprwy bennaeth dinesig wedi'u cynnwys yn y cap. Mae penaethiaid dinesig yn uwch-swyddi mewn cynghorau sy'n wahanol i arweinyddiaeth wleidyddol neu weithredol. Yn ogystal â chadeirio cyfarfodydd pwysig, y pennaeth dinesig yw 'dinesydd cyntaf' a 'llysgennad' yr awdurdod, gan gynrychioli'r cyngor wrth ymwneud â phob math o sefydliadau a chyrff.

15. Mae'r lefel wedi ei osod ar gyfer 2025/26 fel a ganlyn:

Cadeirydd y Cyngor £29,657 (£27,999 yn 2024/25)
Is-gadeirydd y Cyngor £23,726 (£22,406 yn 2024/25)

Aelodau Cyfetholedig

16. Ers 2024/25 mae'r panel wedi cyflwyno cyfradd talu fesul awr, yn ogystal a fesul hanner diwrnod / diwrnod llawn ar gyfer Aelodau cyfetholedig. Roedd hynny yn benodol er mwyn adlewyrchu'r ffordd newydd o weithio ee nifer o gyfarfodydd briffio sy'n cymryd cyfnod llai o amser. Yn dilyn ystyried nifer o wahanol ffactorau, mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddog Monitro wedi rhoi'r trefniadau newydd ar waith, gydag Aelodau cyfetholedig nawr yn hawlio eu costau fesul awr.

17. Bydd y trefniadau yma yn cael eu hadlewyrchu gan Gydbwyllgor Corfforedig y Gogledd hefyd. Nid oes newid i'r cyfraddau a delir ar gyfer 2025/26 – gweler isod.

| Rôl | Taliad cyfradd fesul awr | Cyfradd talu hyd at 4 awr | Cyfradd talu 4 awr a throsodd |
|---|---|---|---|
| Cadeiryddion pwyllgorau safonau, a phwyllgorau Archwilio | £33.50 | £134 | £268 |
| Aelodau cyffredin o bwyllgorau Safonau sydd hefyd yn cadeirio fPwyllgorau Safonau ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref | £29.75 | £119 | £238 |
| Aelodau cyffredin o Bwyllgorau Safonau, pwyllgor Craffu Addysg, Pwyllgor Craffu trosedd ac Anrhefn a Phwyllgor Archwilio | £26.25 | £105 | £210 |
| Cynghorwyr Cymuned a Thref sy'n Aelodau o Bwyllgorau Safonau Prif Gynghorau | £26.25 | £105 | £210 |

Costau eraill

18. Nid oes unrhyw newidiadau pellach i'r taliadau a'r buddiannau a dalwyd i aelodau etholedig ac felly mae pob penderfyniad arall o 2024/25 yn dal i sefyll a dylid eu cymhwyso yn 2025/26.

19. Dylid hefyd nodi fod yr adroddiad yn cyfeirio ar faterion yn ymwneud â Chynghorau Tref a Cymuned ond ni ymhelaethir ar hynny yn yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad**

20. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am

- sylwadau ar gyfer llunio ymateb i ymgynghoriad adroddiad drafft Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

| CYFARFOD | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
|---|---|
| **DYDDIAD** | 12fed Tachwedd 2024 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Darpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau |
| **PWRPAS** | Rhoi diweddariad o'r ddarpariaeth *Dysgu a Datblygu* i Aelodau, gan amlygu canlyniadau holiadur Aelodau. |
| **ARGYMHELLIAD** | Gwahoddir y Pwyllgor i gynnig unrhyw awgrymiadau pellach cyn derbyn yr adroddiad |
| **AWDUR** | Catrin Love, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol |

## 1 Trosolwg

1.1. Yn dilyn yr hyn a gyflwynwyd i chi yn y ddau Bwyllgor diwethaf ynglŷn â niferoedd Aelodau sydd wedi mynychu hyfforddiant craidd, mae llawer o'r gwaith tros y misoedd diwethaf wedi bod yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth am y sefyllfa.

Tabl 1: Mae'r sefyllfa bresennol o ran nifer Aelodau sydd wedi mynychu y 7 teitl craidd fel ganlyn:

| Teitl | Wedi cwblhau | Wedi cwblhau fel % | Heb gwblhau | Cyfanswm aelodau |
|---|---|---|---|---|
| Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol | 50 | 73.5% | 18 | 68 |
| Cod ymddygiad | 50 | 73.5% | 18 | 68 |
| Deddf Llesiant a chenedlaethau'r Dyfodol | 27 | 39.7% | 41 | 68 |
| Diogelu plant ac Oedolion | 33 | 48.5% | 35 | 68 |
| Eich cyfrifoldeb tros gydraddoldeb | 39 | 57.4% | 29 | 68 |
| Gwybodaeth am bobl | 51 | 75.0% | 17 | 68 |
| Rhiantu corfforaethol | 46 | 67/6% | 22 | 68 |

*Cwrs Diogelu Plant ac Oedolion Bregus wedi ei raglennu at 28/11/14 gyda 16 wedi cofrestru
*Cwrs Côd ymddygiad wedi ei raglennu at 12/12/14 gyda 7 wedi cofrestru

Tabl 2: Mae'r tabl isod yn dangos y cynnydd sydd wedi bod ar y niferoedd sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant ar bob teitl ers i'r sefyllfa gael eu hadrodd i chi nôl yng nghyfarfod mis Chwefror eleni.

| Teitl | Sefyllfa Chwefror 2024 | Sefyllfa Tachwedd 2024 | Cynnydd | Nifer cyrsiau sydd wedi rhedeg |
|---|---|---|---|---|
| Arwain yn Ddiogel a Diogelwch personol | 44 | 50 | 6 | 1 |
| Côd ymddygiad | 39 | 50 | 11 | 2 |
| Deddf Llesiant Plant a chenedlaethau'r Dyfodol | 14 | 27 | 13 | 1 |
| Diogelu plant ac Oedolion | 33 | 33 | 0 | 0 (canslo oherwydd nifer isel) |
| Eich cyfrifoldeb tros gydraddoldeb | 27 | 39 | 12 | 1 |
| Gwybodaeth am bobl | 45 | 51 | 6 | 2 |
| Rhiantu corfforaethol | 39 | 46 | 7 | 1 |

Mae'r ystadegau hyn wedi eu cyflwyno i'r Arweinyddion grwpiau, ac mae cyfarfod dilynol hefyd wedi bod gyda'r Arweinyddion Grwpiau er mwyn egluro ymhellach, a rhoi cyd-destun i'r ffigyrau.

1.3. Mae’r gwaith uchod wedi arwain at nifer o ymholiadau gan Aelodau, ac mewn rhai achosion wedi golygu rhaglennu cyrsiau ychwanegol. Fel enghraifft, mae cwrs ychwanegol ar Ddiogelu Plant ac Oedolion Bregus wedi ei raglennu at ddiwedd Tachwedd.

1.4. Mae’r maes Diogelu yn benodol wedi arwain at sawl ymholiad diweddar ynglŷn â pherthnasedd y cwrs Diogelu i Lywodraethwyr Ysgolion gan fod Aelodau Etholedig yn y mwyafrif yn Lywodraethwyr hefyd. Mae cadarnhad wedi ei dderbyn fod cynnwys y ddau gwrs yn wahanol, a nad oes unrhyw sylw ar yr elfen Diogelu Oedolion bregus o fewn y cwrs i Lywodraethwyr. Mae cyfrifoldeb Aelodau hefyd yn wahanol i gyfrifoldebau Llywodraethwyr, felly nid yw’r ddau gwrs yn pontio, ac nid oes modd eithrio Aelodau o’r cwrs hwn yma ar sail eu bod wedi cwblhau cwrs i Lywodraethwyr.

1.5. Mae’r cyrsiau craidd yn flaenoriaeth, ond wedi dweud hynny, ni allwn eu cynnal yn ddi-ddiwedd gyda ond nifer fychan ar bob cwrs. Felly, y bwriad wrth symud ymlaen, a ninnau bellach yn y drydedd flwyddyn etholiadol yw fod recordiadau o’r 7 teitl craidd ar gael ar fewnrwyd yr aelodau. Mae gwaith yn digwydd i sicrhau fod pob un o’r recordiadau hyn ar gael yn ddwy-ieithiog.

1.6. Bellach mae dashfwrdd byw ar gael er mwyn gallu monitro cynnydd yn y maes yma, ac mae angen trafodaeth pellach ynglŷn â pa fforymau y dylid cyhoeddi ein ystadegau fel Cyngor. Mae nifer o gynghorau bellach yn cyhoeddi data ar hyfforddiant craidd i Aelodau yn gyhoeddus.

## 2.0 <u>Holiadur a gweithdy îs-grwp</u>

2.1. Byddwch yn ymwybodol fod proses ymgynghori gyda chi fel Aelodau wedi digwydd tros y misoedd mewn ffurf holiadur anghenion Dysgu a Datblygu. Bu’r holiadur ar agor am gyfnod o 6 wythnos tros yr Haf. Mae’r holiadur yn broses allweddol sy’n deillio o’r Fframwaith Hunan Asesu i Gynghorwyr er mwyn rhoi cyfle i Aelodau nodi eu dymuniadau a’r blaenoriaethau Dysgu a Datblygu.

2.2. Mae canlyniadau yr holiadur wedi eu hatodi fel Atodiad 1 at eich sylw. Bydd y canlyniadau yma yn help mawr i fynd rhagddo i boblogi rhaglen ar gyfer y flwyddyn i ddod a sicrhau ein bod yn targedu eich anghenion a’ch blaenoriaethau.

2.3. I gyd-fynd a’r holiadur ac i ddyfnhau ein dealltwriaeth mae gweithdy hefyd wedi ei gynnal gyda rhai o Aelodau o’r Pwyllgor hwn ac mae’r prif ganfyddiadau hynny wedi eu cynnwys mewn adroddiad arall sydd ger eich bron gan Rhodri Jones.

## 3.0 Rhaglen hyfforddiant

3.1 Mae’r rhaglen hyfforddiant fel ag y mae hi wedi ei phoblogi hyd yma wedi ei hamlinellu i chi yn Atodiad 2 ond bydd gwaith yn digwydd tros y misoedd nesaf i’w haddasu ymhellach yn unol â chanlyniadau yr holiadur a’r hyn a nodwyd yn y gweithdy.

***Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y trefniadau hyfforddiant, cynnig sylwadau a cymeradwyo y camau a gynigir.***

Atodiad 1 / Appendix 1

# ANGHENION DYSGU A DATBLYGU HOLIADUR AELODAU ETHOLEDIG | *LEARNING & DEVELOPMENT NEEDS QUESTIONNAIRE*

24 Ymatebion / Answers      04:45 Amser cyfartalog i'w cwblhau / *Average completion time*

1. Oeddech yn ymwybodol fod y teitlau canlynol wedi eu dynodi fel rhai craidd ple bo gofyn i bob Aelod eu mynychu? || *Were you aware that the following titles have been designated as core ones that all Members are required to attend?*

- Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol | *Safe Leadership & Personal Safety*
- Cod Ymddygiad | *Code of Conduct*
- Cydraddoldeb | *Equality*
- Rhiantu Corfforaethol | *Corporate Parenting*
- Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi | *Information about People : Your Responsibility*
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | *Future Generations Wellbeing Act*
- Diogelu Plant ac Oedolion | *Safeguarding Children and Adults*

Oeddwn / *Yes* 22

Nac Oeddwn / *No* 2



2. Beth ydi eich teimlad o'r ddarpariaeth dysgu a datblygu sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd? | *What do you feel about the Learning & Development provision that is currently being offered*




| | |
|---|---|
| Ardderchog (glas) \| Excellent (blue) | 13 |
| Da (oren) \| Good (Orange) | 8 |
| Boddhaol (gwyrdd) \| Satisfactory (green) | 3 |
| Gwael \| Poor | 0 |
| Annerbyniol \| Unnacceptable | 0 |


3. Darparwch ragor o wybodaeth os ydych wedi ymateb Gwael neu Annerbyniol || *Please provide further information if you have responded poor or unacceptable*

| | |
|---|---|
| Ymatebion Diweddaraf<br><br>Recent replies | 1. Could some of these be done face to face |


4. Allan o'r cynigion isod, pa rai fuasech chi'n eu blaenoriaethu? || *Out of the areas below, which ones would you prioritise? Please provide one response for each of the subject areas*




5. Allan o'r cynigion isod, pa rai fuasech chi'n eu blaenoriaethu? || Out of the areas below, which ones would you prioritise? Please provide one response for each of the subject areas



6. Allan o'r cynigion isod, pa rai fuasech chi'n eu blaenoriaethu? || *Out of the areas below, which ones would you prioritise? Please provide one response for each of the subject areas*




7. Unrhyw gynnig arall? *Cofiwch nodi unrhyw sylw neu gynnig pellach i beth hoffwch chi inni ei ystyried yn ran o raglen dysgu a datblygu i Aelodau Etholedig* || *Are there any other topic areas that you feel that Councillors could benefit from?*

| Ymatebion Diweddaraf<br><br>Recent replies | 1. Cwrs mwy manwl ar gynllunio a'r un gorfodol y mae'n rhaid i aelodau'r pwyllgor cynllunio fynychu / A more detailed course on planning and the compulsory one that members of the Planning Committee must attend<br>2. I have found scrutineering the most challenging task, its sometimes comes mixed with political biases and party politics.<br>3. Sut i ddelio hefo ceisiadau cynllunio a chynwys " permitted developments" \|\| *How to deal with planning applications and including permitted developments*<br>4. Codi ymwybyddiaeth am y dulliau mae pobl yn cael eu sgamio neu drio cael eu sgamio \|\| *Raising awareness on the methods of people being scammed*<br>5. Na \|\| *No*<br>6. diogleu plant a pobl bregus yn bwysig iawn a gwybodaeth am drais yn y cartref \|\| *Safeguarding children and vulnerable adults is of high importance as well as information on domestic abuse*<br>7. After the last election, being a Councilor is not the same. No democracy even bulling.<br>8. Cynllunio - sut i baratoi yn gytbwys a thrwyadl ar gyfer traddodi yn y Pwyllgor Cynllunio \|\| *Planning – how to prepare in a balanced and thorough manner for delivery in the Planning Committee*<br>9. Need more help with enforcement main problem is planning issues etc |
|---|---|

8. Beth yw eich ffafriaeth o gyfrwng hyfforddiant? || *What is your prerferred method for the delivery of training sessions?*




*10.* Oes yna rwystrau penodol sy'n peri trafferthion ichi allu mynychu hyfforddiant? Os felly, nodwch isod: || *Are there specific obstacles that make it difficult for you to attend Training? If so, please state below:*

| Ymatebion Diweddaraf<br><br>Recent replies | 1. Weithiau'n anodd mynychu hyfforddiant yn ystod y dydd oherwydd gwaith \| *Sometimes, it's difficult to attend Training due to my work committments during the day*<br>2. My current health issues make it challenging to attend face to face meetings.<br>3. Dim \| None<br>4. Na \| No<br>5. Na \| No |
|---|---|

| | |
|---|---|
| | 6. Gofal plant \| Childcare<br>7. Prysurdeb \| Hustle and bustle<br>8. Over 10 years pre covid I attended most training given. they were excellent.<br>9. Gwaith \| Work<br>10. Amser \| Time<br>11. Dont join if you dont have the time to do the job in hand<br>12. My other work, distance to location of training |

Noder: Rydym bob amser yn anelu i redeg sesiynau hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae rhai adegau prin pan nad oes gennym unrhyw ddewis onibai comisiynu sesiynau hyfforddi uniaith Saesneg, yn bennaf ar bynciau arbenigol || *Please note: We always aim to run Training sessions through the medium of Welsh. However, there are some rare occasions where we have no option other than to commission English only training sessions, primarily on specialists' subject matters.*

Atodiad 2 / Appendix 2

# RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG

# ELECTED MEMBERS' DEVELOPMENT PROGRAMME

**Ysgrifen sy'n ymddangos yn dywyll – Digwyddiadau "Craidd" / Bold type – 'Core Titles' – Pwysig Mynychu**

Ysgrifen cyffredinol – Digwyddiadau "Dewisiol" / General type – Optional titles

| Dyddiad ac amser / *Date and time* | | Digwyddiad / *Event* | Dull Dysgu / Learning Method | Arweinwyr / *Leaders* |
|---|---|---|---|---|
| **Mai 1 May** | **(10:00 – 11:00)** | **Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi (I bawb sydd heb fynychu)**<br><br>**Information about People : Your Responsibility (For everyone who hasn't attended)** | **Rhithiol / Virtual** | **Helen Mary Parry** |
| Mai 14 May | (10:00 – 11:00) | Helpu pobl trwy'r argyfwng costau byw<br><br>Helping people through the cost of living crisis | Rhithiol / Virtual | Megan Meeke |
| Mai 15 May | (10:00 – 11:30) | Hyfforddiant i Gadeiryddion a darpar Gadeiryddion Pwyllgorau<br><br>Training for Chairs & prospective Chairs of Comittees | Rhithiol / Virtual | Sion Huws |

| Dyddiad ac amser / *Date and time* | | Digwyddiad / *Event* | Dull Dysgu / Learning Method | Arweinwyr / *Leaders* |
|---|---|---|---|---|
| **Mai 21 May** | **(2:00 – 3:30)** | **Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol**<br>**(I bawb sydd heb wneud yr Hyfforddiant)**<br>**Safe Leadership & Personal Safety**<br>**(For everyone who hasn't completed the training)** | **Rhithiol / Virtual** | **Gail Ann Warrington** |
| **Mehefin 7 June** | **(10:00 – 11:00)** | **Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi**<br>**Information about People : Your Responsibility** | **Rhithiol / Virtual** | **Helen Mary Parry** |
| **Mehefin 19 June** | (10:00 – 11:00)<br><br><br>**(4:00 – 6:00)** | Y Gymraeg yn y Gymuned<br>Welsh in the Community<br><br>**Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb**<br>**Your responsibility for Equality** | Rhithiol / Virtual<br><br><br>**Rhithiol / Virtual** | Nia Haf Lewis, Bet Huws, Vera Jones, Llywela Haf Owain-Williams<br><br><br>**Delyth Gadlys Williams** |
| **Mehefin 26 June** | **(10:00 – 12:00)** | **Ein dyletswyddau fel rhieni corfforaethol (I bawb sydd heb fynychu)**<br>**Our duties as Corporate Parents (for everyone who hasn't attended)** | **Rhithiol / Virtual** | **Marian Parry Hughes, Aled Gibbard, Elenid Glyn, Lisa Marie Thompson, Meinir Llwyd Bebb** |
| | | | | |

| Dyddiad ac amser / *Date and time* | Digwyddiad / *Event* | Dull Dysgu / Learning Method | Arweinwyr / *Leaders* |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 10 July (16:00 – 17:30) | Sesiwn Codi Ymwybyddiaeth: Cyfnod 'Galw am Safleoedd Posib', Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd<br><br>Session to Raise Awareness: 'Call for Candidate Sites', Gwynedd Local Development Plan | Rhithiol / Virtual | Heledd Fflur Jones, Bob Thomas<br>Linda Lee, Gareth Jones<br>(Adran Amgylchedd / Environment Department) |
| Gorffennaf 19 July (10:30 – 12:00) | **Sesiwn Codi Ymwybyddiaeth : Cyfarwyddyd Erthygl 4**<br>**(Ail gartrefi a llety gwyliau)**<br><br>**Session to Raise Awareness : Article 4 Direction**<br>**(Second homes and holiday accommodation)** | Rhithiol / Virtual | Gareth Jones, Keira Sweeney, Heledd Fflur Hughes (Adran Amgylchedd / Environment Department) |
| Medi 4 September (10:00 – 3:00) | Atebion arloesol i hen heriau – Gweithdy interactif yn trafod adnoddau a chymorth ataliol ym maes gofal<br><br>Innovative solutions to old challenges - An interactive workshop discussing preventive resources and support in the field of Care | Clwb Pel Droed<br>PORTHMADOG<br>Football Club | Alun Gwilym Williams, Meilir Price Owen a Jessica Mullan, Sian Wyn Griffiths, |
| | | | |

| Dyddiad ac amser / *Date and time* | Digwyddiad / *Event* | Dull Dysgu / Learning Method | Arweinwyr / *Leaders* |
|---|---|---|---|
| Medi 3 September (2:00 – 4:30)<br>Medi 10 September (2:00 - 4:30)<br>Medi 24 September (2:00 – 4:30) | Rhaglen Arweinyddiaeth Gymunedol Flaengar<br><br>Progressive Community Ledership Programme | Rhithiol / Virtual | CLlLC / WLGA |
| Medi 6 September (10:00 – 11:30)<br>Sesiwn gychwynol / Starter session<br>Cwrs 6 wythnos / 6 week course<br>Cwrs ymlaen rhwng 20 Medi a 25 Hydref<br>Course taking place from 20 Sept to 25 Oct<br>Hol Sesiynau 10:00 – 12:00 All Sessions | Cwrs Gloywi Iaith i Gynghorwyr<br><br>Proficiency Welsh Language course for Councillors | Ystafell Ddysgu ENLLI Learning Centre, Caernarfon | Sian Esmor Rees (Tiwtor Cymraeg / Welsh Tutor) |
| **Medi 25 Setpember (14:00 – 15:00)** | **Cyflwyniad i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**<br>**Introduction to the Future Generations Wellbeing Act** | **Rhithiol / Virtual** | **Heledd Morgan (Swyddfa'r Comisiynydd Deddf Llesiant / Wellbeing Act Commissioners Office)** |
| Hydref 7 October (9:30 – 3:30) | Hyfforddiant Cyfryngau a Chyflwyno<br><br>Media & Presenting Training | Ystafell Ddysgu Enlli, Y Ganolfan Ddysgu CAERNARFON<br>Enlli Learning Room, The Learning Centre | Sgript |

| Dyddiad ac amser / *Date and time* | Digwyddiad / *Event* | Dull Dysgu / Learning Method | Arweinwyr / *Leaders* |
|---|---|---|---|
| Tachwedd 12 November (2:00 – 4:30)<br>Tachwedd 19 November (2:00 – 4:30)<br>Tachwedd 26 November (2:00 – 4:30) | Rhaglen Arweinyddiaeth Gymunedol Flaengar<br>Progressive Community | Rhithiol | WLGA |
| **Tachwedd 28 November (2:00 – 4:00)** | **Diogelu Plant ac Oedolion**<br>**Safeguarding Children and Adults** | **Ystafell DWYRYD Room**<br>**Penrhyndeudraeth** | **Dafydd Paul a Mannon Trappe** |
| **Rhagfyr 12 December (5:00 – 6:30)** | **Cod Ymddygiad**<br>**(Yn benodol ar gyfer pawb sydd heb ei gwblhau yn barod)**<br>**Code of Conduct**<br>**(Specifically for those who have been unable to attend so far)** | **Rhithiol / Virtual** | **Iwan Evans** |
| Ionawr / Chwefror (Dyddiad i'w gadarnhau / Date to be confirmed) | Ymwybyddiaeth Niwroamrywiaeth<br>Neurodiversity Awareness | Rhithiol / Virtual | Lucy Hemmings |
| Mawrth – Ebrill 2025 \| March – April 2025 | Craffu ar berfformiad<br>Scrutinise on performance | I'w gadarnhau<br>To be confirmed | Dafydd Gibbard/Geraint Owen/Huw Dylan Owen |
| I'w gadarnha / To be confirmed | Cynllunio – diweddariad am y maes<br>Planning – refresher | I'w gadarnhau<br>To be confirmed | Gareth Jones, Keira Ann Sweeney |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 12 Tachwedd 2024 |
| **Pwnc** | Gwybodaeth i Gynghorwyr |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am sylwadau ar y bwriad i geisio rhesymoli trefniadau cyflwyno gwybodaeth i Gynghorwyr. |
| **Swyddog Cyswllt:** | Vera Jones,<br>Rheolwr Democratiaeth ac Iaith |

**Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

1. Yn ei adroddiad blynyddol, bu i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth nodi y canlynol fel blaenoriaeth ar gyfer 2024/25:

   "*Rhesymoli'r rhaglen hyfforddiant a rhaglen briffio ar gyfer Cynghorwyr er mwyn gwneud y defnydd gorau o amser Cynghorwyr ac adnoddau'r Cyngor*."

2. Mae eitem benodol ar yr agenda yn rhoi sylw i'r datblygaidau ym maes hyfforddiant.  Law yn llaw â hynny, mae datblygiadau wedi digwydd wrth geisio rhesymoli gwybodaeth a rhaglen briffio ar gyfer Cynghorwyr.

**Beth yw'r sefyllfa gyfredol?**

3. Mae Cynghorwyr yn nodi eu bod yn 'boddi' yn sgil yr holl ofynion/cynigion am sesiynau briffio, hyfforddiant, gwybodaeth.  Mae nifer wedi nodi nad ydynt yn siŵr pa sesiynau sydd fwyaf pwysig (pa rai i'w blaenoriaethu), ac maent hefyd yn nodi'r angen i gadw cydbwysedd gyda chyfarfodydd swyddogol/ gwaith ward/ gwaith cyflogedig (a bywyd yn gyffredinol).

4. Ar hyn o bryd trefnir digwyddiadau yn "ad-hoc" pan fo dyddiad ar gael.  Nid oes system i roi trefn ar y cyfan a gweld y darlun mawr ar draws yr holl arlwy 'cyflwyno gwybodaeth' sy'n cael ei gynnig i Gynghorwyr.  Yn gyffredinol, os oes cais yn cyrraedd i gynnal sesiwn briffio neu rannu gwybodaeth (boed y cais yn cyrraedd y Tîm Democratiaeth, Tîm Prif Weithredwr, Tîm Dysgu a Datblygu) yna mae sesiwn yn cael ei drefnu. Mae nifer o sesiynau yn cael eu trefnu yn uniongyrchol gan y gwasanaethau hefyd.

5. Yn ychwanegol mae ceisiadau gan gyrff allanol hefyd yn cyrraedd ee sesiynau gwybodaeth am ddata gan yr Uned Ddata.

6. Gall hyn arwain at sesiynau yn cael eu dyblygu gyda'r nifer sy'n mynychu yn gallu bod yn isel, sy'n wastraff adnoddau staff a Chynghorwyr. Nid oes ychwaith ddealltwriaeth llawn o'r gwahanol faterion sy'n cael eu cyflwyno 'er gwybodaeth' i'r Fforymau Ardal, gan fod agenda y fforymau hyn yn nwylo'r Aelodau etholedig yn bennaf ar hyn o bryd.

7. Mae gwybodaeth am ddigwyddiadau i fod yn y calendr electroneg "cyfarfodydd Aelodau" er mwyn osgoi gwrthdaro – ond nid yw hyn yn digwydd bob tro.

**8. O ble daw ceisiadau am wybodaeth, briffio a hyfforddiant?**

- WLGA
- Cyfweliadau Datblygiad Personol i Gynghorwyr
- Data Cymru
- Cais gan Gynghorwyr
- Gofynion Deddfwriaethol newydd yn golygu fod angen briffio
- Penaethiaid Adran – cais am sesiwn
- Penaethiaid Adran – cais i gyflwyno hyfforddiant
- Prif Weithredwr
- Hyfforddiant Craidd
- Cais Fforwm Ardal
- Grwpiau Gwleidyddol yn trefnu
- Ceisiadau hyfforddiant
- Cais o Graffu – gofyn am wybodaeth cyn craffu

**9. Pa welliannau sydd eisoes yn digwydd?**

10. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar resymoli'r rhaglen Dysgu a Datblygu Aelodau, y rhaglen hyfforddiant. Mae diffiniad clir ar gyfer
    - hyfforddiant craidd - disgwyliad i bob Cynghorydd gyflawni y 7 maes blaenoriaeth, ynghyd â hyfforddiant sy'n angenrheidiol i'w gyflawni cyn cael eistedd ar bwyllgorau penodol (ee Pwyllgor Cynllunio, pwyllgor trwyddedu ayyb),
    - 'hyfforddiant ychwanegol' – hyfforddiant tu allan i'r 7 maes craidd
    - 'hyfforddiant datblygiadol' – ar gyfer datblygiad personol Aelodau Etholedig

11. Yn ogystal, ymgynghorir â phob Pennaeth Adran a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth cyn dechrau pob blwyddyn i adnabod materion hyfforddiant am y flwyddyn sydd i ddod. Yn annatod, mae ceisiadau ychwanegol yn codi yn ystod y flwyddyn (gan Benaethiaid a chan Gynghorwyr) am sesiynau ar bynciau ychwanegol.

12. Yn ystod y flwyddyn a fu mae nifer o sesiynau (boed yn hyfforddiant neu sesiynau briffio) wedi eu cynnig i Gynghorwyr, ond mae rhai sesiynau wedi gorfod cael eu canslo yn sgil niferoedd isel. Ar hyn o bryd rydym yn ceisio mynd i'r afael a'r sefyllfa gyda'r hyfforddiant craidd oherwydd ei bwysigrwydd i ddiogelu Cynghorwyr yn eu rôl. Ystyrir y meysydd yma o hyfforddiant yn feysydd allweddol, ac felly nid ydynt yn cael ystyriaeth o fewn y trefniadau isod sy'n canolbwyntio ar hyfforddiant 'ychwanegol' a 'datblygiadol'.

13. Mae trefn eisoes yn bodoli ar gyfer cadw cofrestr o'r materion sy'n cael eu cyflwyno i'r tîm arweinyddiaeth, Cabinet, Cyngor a Pwyllgorau Craffu. Bwriedir ychwanegu materion sy'n cael eu cyflwyno i'r Fforymau Ardal i'r gofrestru uchod er mwyn ceisio osgoi dyblygu.

**Beth yw'r atebion posib?**

14. Bwriedir parhau gyda'r trefniadau i resymoli'r rhaglen Dysgu a Datblygu Aelodau.

15. Yn ychwanegol, bwriedir defnyddio'r gofrestr a nodir yn 13 uchod fel sail ar gyfer ffiltro ceisiadau gan Adrannau i rannu gwybodaeth i Gynghorwyr. Bydd tîm ffiltro yn cwrdd yn fisol er mwyn adnabod y trywydd cywir ar gyfer ymdrin â cheisiadau "briffio/ cynnal sesiwn gwybodaeth/ hyfforddi" Aelodau sy'n codi yn ystod y flwyddyn. .

16. Mae elfen o gyfrifoldeb yn nwylo'r Adrannau hefyd. Bydd angen codi ymwybyddiaeth yr Adrannau fod ymgais i resymoli'r hyn sy'n cael ei gyflwyno i Gynghorwyr yn digwydd, ac y bydd unrhyw gais yn cael ei ystyried fel rhan o'r darlun mawr, ac o bosib yn cael ei wrthod. Bydd angen elfen o flaen-gynllunio ar gyfer yr hyn sydd i'w gyflwyno.

17. Mae trefniadau mewnol y neu lle er mwyn hwyluso'r trefniadau. Gofynnir i'r Adrannau ddarparu 2-3 pwynt bwled yn esbonio ychydig am yr eitem a pham eu bod yn gweld yr angen am gyflwyno'r wybodaeth gan hefyd nodi'r amserlen ddelfrydol (er nad oes gwarant y gellir cwrdd â hynny).

18. Yn ychwanegol, mae angen gwneud defnydd ehangach o'r Mewnrwyd Aelodau a'r Bwletin Aelodau. Mae defnydd mewnol yn gyffredinol dda, fodd bynnag mae angen hyrwyddo'r defnydd ymysg Aelodau Etholedig.

19. O gymryd y cam i geisio rhesymoli'r hyn a gyflwynir i Gynghorwyr, mae'r canllawiau drafft isod ar gyfer adnabod y lleoliad cywir ar gyfer unrhyw bwnc. Rhaid cadw'r ffocws ar resymoli'r rhaglen yn hytrach na pha drywydd mae'r ateb yn ei ddilyn gan fod llinellau llwyd rhwng yr isod.

- SESIYNAU BRFFIO –diweddariad ar bwnc gweithredol penodol sy'n berthnasol i'r holl aelodau/ materion traws sirol. Lle i ystyried rhesymoli'r niferoedd/dyddiadau ee 1 diwrnod y mis.

- FFORYMAU ARDAL – Mae'r agenda ym mherchnogaeth yr aelodau etholedig yn gyfredol. Awgrymir defnyddio'r Fforymau Ardal i gyflwyno gwybodaeth/materion perthnasol i ardaloedd penodol, lle byddai'r sgwrs/trafodaeth yn amrywio o ardal i ardal

- RHAGLEN DYSGU A DATBLYGU AELODAU – Gwybodaeth i alluogi'r Cynghorwyr i gyflawni eu rôl. Ystyrir yr hyfforddiant 'craidd' yn allweddol ac felly nid yw'n ystyriaeth yma. Bydd ceisiadau am hyfforddiant 'ychwanegol' a 'datblygol' yn cael eu hystyried.

- Gweithredu fel 'postman' ar gyfer materion hyfforddiant sy'n codi gan eraill ee Uned Ddata, WLGA hy gyrru'r wybodaeth ymlaen at y Cynghorwyr yn unig.

- MEWNRWYD AELODAU A BWLETIN AELODAU – mae angen gwneud gwell defnydd o'r adnodd a hybu ei ddefnydd ymysg aelodau. Mae lle i geisio ystyried creu nodyn gwybodaeth yn unig, heb yr angen am gynnal sesiwn briffio o gwbl.

20. Effaith Posib:


- ✓ Blaenoriaethu materion a gyflwynir i Gynghorwyr
- ✓ Llai o gwynion gan Gynghorwyr eu bod yn cael eu boddi
- ✓ Defnydd gwell o adnoddau staff (peidio cynnal sesiynau 'gwag', peidio dyblygu, peidio gorfod ail drefnu)
- ✓ Cyfle i staff ddod i gyswllt a'r arena wleidyddol fel datblygiad personol trwy fynychu'r Fforymau Ardal
- ✓ CRAFFU - rhyddhau pwyllgorau i graffu ar faterion strategol (heb fynd i faterion ward).
- ✓ GRWPIAU GWLEIDYDDOL - dileu'r angen am sesiynau briffio y grwpiau gwleidyddol

21. Gweler ddyluniad o'r drefn sy'n cael ei argymell yn **Atodiad 1**.

**Argymhelliad**

22. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am sylwadau ar y trefniadau i geisio rhesymoli trefniadau cyflwyno gwybodaeth i Gynghorwyr.

Atodiad 1


GWYBODAETH I GYNGHORWYR
WLGA
Cyfweliadau Datblyg-iad Personol i Gyn-ghorwyr
Data Cymru
Cais o Craffu – gofyn am wybodaeth cyn craffu
Cais gan Gyn-ghorwyr
Prif Weith-redwr
Penaethiaid Ad-ran – cais am briffio
Penaethiaid Adran – cais i gyflwyno hy-fforddiant
Ceisiadau Grwpiau Gwleidyddol
Ceisiadau Fforwm Ardal
Gofynion Deddfwriaethol newydd yn golygu fod ang-en briffio
Cais briffio gan eraill ee yr heddlu
Ateb yn ddibynnol ar natur y cais—i'w ystyried gan y "grŵp Ffiltro"
GWEITHREDU FEL POSTMAN YN UNIG
RHAGLEN HYFFORDDIANT —hyfforddiant ychwanegol, datblygol.
SESIWN BRIFFIO (materion sy'n berthnasol i'r holl aelodau) neu
FFORWM ARDAL (materion sy'n berthnas-ol i ardal benodol)
BWLETIN AELODAU / MEWNRWYD AELODAU
Hyfforddiant Craidd a hyfforddiant cyn eistedd ar bwyllgorau penodol
Allweddol bwysig felly'n eistedd ar wahân i'r drefn gwyb-odaeth mwy cyffredinol

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **12 Tachwedd 2024** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Diweddariad: Fframwaith Hunanwerthuso Cefnogaeth i Gynghorwyr Cymru** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Rhodri Jones, Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth** |

**1. PENDERFYNIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ystyried yr adroddiad, cynnig sylwadau, a derbyn yr hyn a gynigir.

**2. Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

2.1 Mae Awdurdodau Lleol yn darparu'r gefnogaeth mae holl gynghorwyr ei hangen i gyflawni eu rôl. Mae sicrhau cefnogaeth a datblygiad i Gynghorwyr yn allweddol bwysig yng Nghyngor Gwynedd. Er mwyn ein cynorthwyo i asesu ein darpariaeth, rydym wedi dewis defnyddio Fframwaith Hunanwerthuso Cefnogaeth i Gynghorwyr Cymru sydd wedi ei ddarparu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

2.2 Yn hanesyddol, mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn dilyn arweiniad y GLlLC drwy sicrhau asesiad Siarter Cymru a oedd yn asesu manylion am y gefnogaeth a roddwyd i gynghorwyr. Roedd adolygiad diweddar ohono wedi amlygu'r angen i ddod a'r Siarter i ben, er mwyn sefydlu fframwaith newydd sy'n adlewyrchu dull mwy blaengar o gynorthwyo a chefnogi cynghorwyr.

2.3 Mae'r Fframwaith newydd hwn, Fframwaith Hunanwerthuso Cefnogaeth i Gynghorwyr Cymru, wedi'i rannu yn dri maes eang sy'n cynrychioli'r gwahanol agweddau o waith cynghorwyr a'u cyfrifoldebau – Democratiaeth, Cymuned a Dysgu a Datblygu.

2.4 Mae'r defnydd o'r Fframwaith yn gwbl wirfoddol er mwyn sicrhau bod trefniadau'r Cyngor ar gefnogaeth i gynghorwyr o'r safon uchaf ac yn addas i bwrpas.

2.5 Bydd y Fframwaith yn cael ei adolygu'n achlysurol i sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaethau presennol.

**3 Sefydlu'r Fframwaith yng Ngwynedd: Dysgu a Datblygu**

3.1 Cynhaliwyd cyfarfod aml-leoliad gyda chynrychiolwyr y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar 19 Medi 2024 er mwyn rhannu barn, sylwadau a syniadau am y darpariaeth Dysgu a Datblygu presennol.

3.2 Mae'r Fframwaith yn awgrymu cwestiynau ar nifer o bynciau o fewn y prif feysydd a gellir eu gweld yn Atodiad 1. er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer cynghorwyr yn safonol. Ar gyfer y maes Dysgu a Datblygu, mae'r prif feysydd yn cynnwys:

- Strategaeth Datblygu Cynghorwyr
- Adolygiadau datblygu personol
- Rhaglen dysgu a datblygu
- Rhaglen Sefydlu
- Ansawdd datblygiad
- Cyfranogiad
- Dysgu oddi wrth eraill

3.3 Cynhaliwyd trafodaeth fanwl ar y pynciau a nodi yn 3.2 ac mae'r prif ganfyddiadau i'w gweld yn Atodiad 2.

**4 Camau Nesaf**

4.1 Bydd cyfarfod arall yn cael ei gynnal er mwyn trafod materion Democratiaeth. Bydd hyn yn gyfle i rannu sylwadau a syniadau pellach ar ddarpariaeth cefnogaeth Democratiaeth, Cyfreithiol ac Etholiadol yng Nghyngor Gwynedd.

4.2 Gobeithir adrodd ar sylwadau'r cyfarfod hwnnw yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, cyn mynd ati i drafod a manylu ar ddarpariaeth a chefnogaeth Gymunedol sydd ar gael i gynghorwyr Gwynedd.

---

**Atodiad 1:** Fframwaith Hunanwerthuso Cefnogaeth i Gynghorwyr Cymru

**Atodiad 2:** Crynodeb o drafodaethau ar y gefnogaeth o fewn y maes Dysgu a Datblygu

Rhaglen **Welliant**
**Improvement** Programme

# Fframwaith Hunanwerthuso Cefnogaeth i Gynghorwyr Cymru



CLlLC
WLGA



**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
**Welsh Local Government Association**

Un Rhodfa'r Gamlas Heol
Dumballs Caerdydd
CF10 5BF
Ffôn: 029 2046 8600
wlga.cymru

One Canal Parade Dumballs
Road Cardiff
CF10 5BF
Tel: 029 2046 8600
wlga.wales

**Mae rôl cynghorydd yn gymhleth ac yn ddwys ac yn dod yn gynyddol heriol gyda phob cyfnod newydd mewn swydd. Mae Cynghorau yn darparu'r gefnogaeth mae holl gynghorwyr ei hangen i gyflawni'r deilliannau sydd eu hangen gan eu cymunedau. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth, canllawiau a datblygiad.**

Mae gan Gynghorau hanes maith o weithio gyda'i gilydd a gyda CLILC i rannu gwybodaeth, arfer da ac adnoddau ar gyfer cefnogi a datblygu cynghorwyr. Mae'r Fframwaith Hunanwerthuso Cefnogaeth i Gynghorwyr hwn yn darparu dull i gynghorau sicrhau eu hunain fod ganddynt yr holl gefnogaeth bosibl ar waith i'w cynghorwyr. Mae'r Fframwaith wedi cael ei ddatblygu gan CLILC, swyddogion gwasanaethau democrataidd a chynghorwyr ac mae'n darparu fframwaith cenedlaethol uchelgeisiol ond pragmatig o arfer da i gefnogi cynghorwyr. Mae'n cydnabod gofynion deddfwriaethol, canllawiau statudol a chanllawiau eraill, yr anghenion a fynegwyd gan gynghorwyr ac enghreifftiau a dderbynnir yn gyffredinol o'r hyn sy'n gweithio.

Mae'r Fframwaith hefyd yn adlewyrchu'r dull o dan arweiniad sector a gymerir gyda'r rhaglen ehangach ar gyfer gwelliant a hunanasesu yng Nghymru ac mae'n galluogi rhannu arfer da rhwng cynghorau.

**Mae'r Fframwaith yn cynnwys:**

- cefnogaeth a datblygiad i gynghorwyr yn yr ystyr ehangaf i ymgorffori cefnogaeth gan y cyngor cyfan. Gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, er enghraifft, gwasanaethau democrataidd, timau cyfreithiol, digidol, cyfathrebu, dysgu a datblygu, a chyfarwyddiaethau yn eu cefnogaeth ar gyfer craffu, y bwrdd gweithredol a chynghorwyr rheng flaen,
- anghenion pob cynghorydd cyn etholiad, fel aelodau newydd ac fel gwleidyddion profiadol,
- holl rolau cynghorydd o fewn y cyngor ac yn y gymuned,
- cefnogaeth bersonol a 'phroffesiynol' a ddarperir i gynghorwyr o fewn dylanwad cynghorau a hefyd
- disgwyliadau a osodir ar gynghorau, swyddogion, a chynghorwyr eu hunain.

**Mae'r Fframwaith wedi'i rannu yn dri maes eang sy'n cynrychioli'r gwahanol agweddau o waith cynghorydd a'i gyfrifoldebau. Democratiaeth, Cymuned a Dysgu a Datblygu. Mae pob maes yn cynnwys set o ddeilliannau mae cynghorau a chynghorwyr yn ceisio eu cyflawni a rhai cwestiynau a awgrymir y gellir eu gofyn i helpu i lunio dulliau a chamau gweithredu ym mhob maes.**

Mae'r Fframwaith yn cymryd deddfwriaeth a chanllawiau presennol i ystyriaeth, er enghraifft Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau sy'n cynnwys y canllawiau statudol ac anstatudol yn y maes hwn. Mae hefyd yn cynnwys barn cynghorwyr fel y nodwyd mewn, er enghraifft, Arolygon Gadael CLILC i Gynghorwyr sy'n Camu i Lawr yn Wirfoddol ym mhob etholiad ers 2012 ac Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol gan Lywodraeth Cymru a gymerwyd ym mhob etholiad ers 2017. Mae hefyd yn cefnogi mentrau ar draws y DU fel yr ymgyrch Gwarineb mewn Bywyd Cyhoeddus.

**Mae'r defnydd o'r Fframwaith yn gwbl wirfoddol.** Mae'r graddau mae cynghorau yn gallu gweithredu'r arferion a ddisgrifir yn dibynnu ar adnoddau a blaenoriaethau lleol ac anghenion a blaenoriaethau cynghorwyr. Dylai'r cwestiynau a awgrymir gael eu haddasu ar gyfer dulliau a sefyllfaoedd cynghorau gwahanol.

Mae'n bosibl y bydd cynghorau yn dymuno defnyddio'r Fframwaith yn gwbl neu'n rhannol hyblyg dros amser neu fel sylfaen ar gyfer adolygiad gan gymheiriaid. Mae cynghorau yn cael eu gwahodd i rannu arfer nodedig sy'n codi o'r defnydd o'r Fframwaith gyda'r naill a'r llall, er enghraifft, y Rhwydwaith Penaethiaid Gwasanaethau Democrataidd.

Bydd y Fframwaith yn cael ei adolygu'n achlysurol i sicrhau ei fod yn parhau yn addas i bwrpas ac yn adlewyrchu deddfwriaeth bresennol yn gywir.



# Democratiaeth

**Canlyniadau a geisir:**

- **Mae pobl yn cael eu hannog a'u galluogi i sefyll fel cynghorwyr.**
- **Mae cynghorwyr yn deall eu rôl ac yn ei chyflawni'n effeithiol ac yn foesegol.**
- **Gall cynghorwyr gymryd rhan gyfartal ym musnes y cyngor.**
- **Mae cynghorwyr yn cael y gefnogaeth, y wybodaeth, a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt.**
- **Mae cynghorwyr yn cynrychioli amrywiaeth y bobl y maent yn eu gwasanaethu.**
- **Mae cynghorwyr yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed.**

| Thema | Cwestiynau a Awgrymir |
|---|---|
| **Ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr** | A yw'r cyngor yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr i ddarpar ymgeiswyr ac ymgeiswyr swyddogol am rôl y cynghorydd, y cyngor ac unrhyw gyfrifoldebau a buddion cysylltiedig?<br><br>A yw'r ymagweddau at allgymorth a gwybodaeth i ddarpar ymgeiswyr yn cael eu gwneud yn unol â'r angen i annog amrywiaeth mewn ymgeiswyr?<br><br>A yw'r estyn allan hwn yn cael ei lywio gan Ddatganiad Amrywiaeth neu Strategaeth Cyfranogi'r Cyngor?<br><br>A yw'r cyngor yn cyfeirio darpar ymgeiswyr at wybodaeth a ddarperir gan LlC, CLlLC, y Comisiwn Etholiadol a sefydliadau eraill sy'n darparu gwybodaeth i ymgeiswyr?<br><br>A yw cynghorwyr, y cyngor a phleidiau lleol yn hyrwyddo mentrau ymgyrchu teg a pharchus?<br><br>A yw darpar ymgeiswyr yn cael gwybod am gefnogaeth ar gyfer sefyll, fel y gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Llywodraeth Cymru?<br><br>A yw darpar ymgeiswyr yn cael gwybod am y disgwyliadau a osodir arnynt i gymryd rhan mewn cyfnod sefydlu a datblygiad proffesiynol parhaus, y bydd rhai ohonynt yn orfodol? |
| **Mae cynghorwyr yn deall eu rôl, eu cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd.** | A yw pob cynghorydd, pan gaiff ei ethol neu wrth gael ei ddewis ar gyfer swydd arbenigol, yn cael gwybodaeth ac arweiniad am bob agwedd ar ei rôl?<br><br>A yw pob cynghorydd yn cael fframwaith cymhwysedd i ddeall y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt? |

| | |
|---|---|
| | A yw disgrifiadau rôl (gweler modelau CLILC am enghreifftiau) wedi cael eu mabwysiadu'n ffurfiol gan y cyngor a chynghorwyr unigol wedi cytuno arnynt?<br><br>**A yw cynghorwyr sy'n gwasanaethu ar gyrff allanol wedi cael:**<br>- arweiniad ar eu rôl a'u cyfrifoldebau**,**<br>- gwybodaeth gyfreithiol megis eu hatebolrwydd a buddiannau,<br>- esboniad o'r disgwyliadau a osodir arnynt gan eu cyngor enwebu,<br>- gofynion ar gyfer cyfathrebu â'r corff allanol ac adrodd yn ôl oddi wrtho? |
| **Safonau ymddygiad** | A yw'r holl gynghorwyr yn deall eu cyfrifoldebau o ran cadw at y cod ymddygiad lleol? A ydynt wedi cael canllawiau lleol ac unrhyw wybodaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru?<br><br>A yw pwyllgorau safonau a chadeiryddion yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau penodol?<br><br>A yw arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn hyrwyddo ac yn cynnal safonau uchel o ymddygiad ac yn cydweithredu â'r pwyllgor safonau?<br><br>A yw'r holl gynghorwyr wedi ymrwymo'n ffurfiol i ymgymryd â phob agwedd ar eu rôl gyda chwrteisi a pharch tuag at ei gilydd, y cyhoedd a swyddogion ym mhob lleoliad a chyfrwng?<br><br>A yw achosion o fwlio, aflonyddu a bygwth yn cael eu trin yn gyflym ac yn effeithiol? |
| **Y cyfansoddiad** | **A yw pob cynghorydd yn deall y cyfansoddiad, gan gynnwys:**<br>- rolau, cyfrifoldebau, a chyfyngiadau i rolau pwyllgorau,<br>- rôl cynghorwyr a swyddogion unigol,<br>- protocolau cynghorwyr / swyddogion,<br>- arfer o ran cyfarfodydd,<br>- archebion sefydlog,<br>- rheolau trafodaeth,<br>- ymgysylltu â'r cyhoedd,<br>- rolau yn y cyngor lle bernir bod hyfforddiant cynghorwyr yn orfodol? |

| | |
|---|---|
| **Cefnogaeth Swyddogion** | A oes gan bob pwyllgor, panel, fforwm ac ati lefel briodol o gefnogaeth swyddogion?<br><br>A yw cynghorwyr yn cael eu cefnogi'n ddigonol yn eu gwaith cydweithredol a gwaith ar y cyd â chynghorau neu sefydliadau eraill, er enghraifft ar gydbwyllgorau corfforaethol?<br><br>A yw cynghorwyr yn cael eu cefnogi yn eu cymuned a'u gwaith achos?<br><br>A yw'r holl gynghorwyr yn cael y wybodaeth a'r ymchwil y mae ganddynt hawl i'w cael yn unol â gofynion y canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan adran 8 (1A) Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011.<br><br>h.y. Mewn ymateb i geisiadau penodol ac yn rhagweithiol, mae'r holl gynghorwyr yn cael gwybodaeth, data, briff a hyfforddiant yn ymwneud â'u penderfyniadau, gwaith pwyllgor, gwaith cymunedol a gwaith achos.<br><br>**Mae'r gwasanaeth hwn yn:**<br><br>○ darparu'n deg i bob aelod yn unol â phrotocol a gyhoeddwyd, sy'n cynnwys safonau ac amseroedd ymateb,<br>○ eithrio gwybodaeth at ddefnydd plaid wleidyddol,<br>○ darparu'n gyfrinachol lle bo angen a chan roi sylw dyledus i gyfraith diogelu data a chyfraith gwybodaeth arall,<br>○ cael ei gyflawni gan y cyngor neu asiantaethau allanol,<br>○ gymesur ac yn cael ei ddarparu o fewn yr adnoddau sydd ar gael.<br><br>Mae pwyllgorau gwasanaethau democrataidd yn sicrhau bod y gwasanaeth yn effeithiol a bod ganddo adnoddau digonol.<br><br>A yw pwyllgorau trosolwg a chraffu yn cael cymorth penodol gan swyddogion a all ddarparu ymchwil, cefnogaeth a chyngor diduedd?<br><br>A yw natur unrhyw wybodaeth gefnogol, gan gynnwys gwasanaethau ymchwil, wedi cael cyhoeddusrwydd clir a'i hesbonio i bob cynghorydd? |
| **Mynediad cyfartal** | A yw'r trefniadau a wneir ar gyfer busnes y cyngor yn hyblyg ac a ydynt yn galluogi i gynghorwyr gyfranogi'n llawn waeth beth fo'u hamgylchiadau personol?<br><br>A yw amseroedd, dulliau a lleoliadau cyfarfodydd yn adlewyrchu'r anghenion a fynegir gan gynghorwyr cymaint â phosibl?<br><br>A yw cynghorwyr yn cael mynediad cyfartal i gyfarfodydd heb ystyried unrhyw nodweddion gwarchodedig?<br><br>A yw'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad yn diwallu anghenion cynghorwyr? |

| | |
|---|---|
| | A yw cynghorwyr a chyfranogwyr eraill y cyfarfodydd yn gallu defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg mewn cyfarfodydd?<br><br>A yw amseroedd egwyl cynghorau yn adlewyrchu anghenion cynghorwyr sydd, er enghraifft, â chyfrifoldebau gofalu?<br><br>A yw trefniadau rhannu swydd ar gyfer aelodau cabinet yn cael eu cefnogi fel bod y llwyth gwaith yn glir ac yn briodol?<br><br>A oes mannau wyneb yn wyneb ar gael yn achlysurol ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol ar gais? |
| **Cefnogaeth ar gyfer hawliau, diogelwch a lles cynghorwyr** | A roddir arweiniad i gynghorwyr ar eu hawliau a'u buddion. Er enghraifft, cyflogau, absenoldeb teuluol, rhannu swydd ar gyfer aelodau'r pwyllgor gwaith / cabinet, lwfansau, treth a budd-daliadau, pensiynau, indemniadau, diogelu data a rhyddid gwybodaeth?<br><br>A yw cynghorwyr yn cael eu hannog yn frwd i gymryd y cyflogau a'r lwfansau y mae ganddynt hawl iddynt, a'u hannog i beidio â chymryd y lwfansau a'r cyflogau blaenorol?<br><br>A oes gan y cyngor ddyletswydd gofal anffurfiol ar waith sy'n dangos ymrwymiad rhagweithiol i ddiogelu iechyd a lles cynghorwyr? A oes cofnod ohono ac a yw ar gael i aelodau ei weld? A yw'n nodi natur unrhyw gefnogaeth sydd ar gael i gynghorwyr, er enghraifft cwnsela a gwiriadau iechyd, a'r rhai sy'n gyfrifol am helpu cynghorwyr i gael mynediad at y gefnogaeth hon?<br><br>A roddir arweiniad i gynghorwyr ar gynnal eu lles a'u diogelwch personol? Er enghraifft, gweithio ar eich pen eich hun, bwlio ac aflonyddu?<br><br>A yw'r cyngor yn gweithredu'n rhagweithiol i gefnogi cynghorwyr sy'n cael profiad o fwlio ac aflonyddu, gan gynnwys cysylltu â'r heddlu os yw'n briodol? |
| **Amrywiaeth** | A yw Datganiad Amrywiaeth (neu gyfatebol) y cyngor wedi'i gytuno gan y Cyngor Llawn? A yw'n cael ei fonitro?<br><br>A yw'r Datganiad Amrywiaeth (neu gyfatebol) yn nodi'r camau y mae'r cyngor yn eu cymryd i sicrhau bod cynghorwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu hannog i sefyll a chael swyddi cyfrifol lle bynnag y bo modd?<br><br>A yw cynghorwyr â gofynion mynediad arbennig yn cael eu cefnogi yn eu gwaith yn y cyngor a'r gymuned? |

| | |
|---|---|
| **Digidol** | A yw pob cynghorydd wedi cael yr offer neu'r cyllid i brynu'r offer, meddalwedd, apiau a'r cysylltedd sydd eu hangen i gyflawni eu rôl yn swyddfeydd y cyngor, gartref ac wrth deithio yn ardal y cyngor?<br><br>A yw'n cynnwys ffonau clyfar a gliniaduron/tabledi?<br><br>A ddarparwyd hyfforddiant llawn ar ddefnyddio offer a phecynnau? A oes cymorth technegol ar gael?<br><br>A yw cynghorwyr yn cael digon o gefnogaeth i fynd i gyfarfodydd aml-leoliad?<br><br>A yw cynghorwyr yn cael eu cefnogi i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol drwy ganllawiau ar sut i'w defnyddio a diogelwch ar-lein? |



| # Cymuned | **Canlyniadau a geisir:**<br><br>- **Mae cynghorwyr yn arwain, cynrychioli, eirioli dros, a galluogi eu cymunedau.**<br>- **Mae cynghorwyr yn sicrhau bod adnoddau lleol ar gael ac yn cael eu defnyddio i'r eithaf.**<br>- **Mae cynghorwyr yn annog cyfranogiad dinasyddion ac arloesi.**<br>- **Mae cynghorwyr yn gweithio gyda chymunedau i'w gwneud yn gynaliadwy ac yn wydn. and resilient.** |
|---|---|
| **Thema** | **Cwestiynau a Awgrymir** |
| **Ymwybyddiaeth y cyhoedd** | A yw'r cyngor yn sicrhau bod y cyhoedd yn deall rôl a chyfrifoldebau cynghorwyr ac ASau lleol, ASau a chynghorwyr tref a chymuned? A yw pobl yn gwybod pa haen o gynrychiolwyr y dylid cysylltu â nhw ar gyfer gwahanol faterion lleol?<br><br>A yw'r cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynghorwyr ac yn hyrwyddo eu gwerth i'r gymuned? |
| **Cymunedau yn cysylltu â chynghorwyr** | A oes systemau ar waith i drigolion lleol a grwpiau cymunedol gysylltu â'u cynghorydd ward lleol, a/neu gynghorwyr â rolau penodol, os yw'n briodol?<br><br>A yw'r systemau a'r safonau hyn ar gyfer eu cymhwyso wedi'u mynegi'n glir a'u cyhoeddi i'r cyhoedd a chynghorwyr? |
| **Cymorthfeydd a chyfarfodydd cymunedol** | A yw'r gefnogaeth a ddarperir gan y cyngor i gynghorwyr drefnu cymorthfeydd a chyfarfodydd cymunedol yn ddigonol?<br><br>A yw'r swyddogion perthnasol yn mynd i gyfarfodydd cymunedol ar gais cynghorwyr lle y bo'n briodol?<br><br>A yw maint y gefnogaeth sydd ar gael i gynghorwyr wedi'i fynegi'n glir i bob cynghorydd? |
| **Ymgysylltiad, arweinyddiaeth a chyd-gynhyrchu yn y gymuned** | A yw cynghorwyr yn cael eu hysbysu, eu cefnogi ac yn cael adnoddau i alluogi eu cymunedau i fod yn gynaliadwy ac yn wydn drwy, er enghraifft:<br><br>- ymgynghoriad cymunedol ffurfiol ac anffurfiol<br>- cydweithio gydag arweinwyr cymunedol i ddiwallu anghenion ar lefel leol,<br>- cyd-gynhyrchu polisïau a chamau gweithredu sy'n arwain at gymunedau llwyddiannus gyda phobl leol?<br><br>A yw'r gefnogaeth hon ar gyfer cynghorwyr wedi'i mynegi'n glir i bob cynghorydd? |

| | |
|---|---|
| **Cefnogaeth gwaith achos** | A oes yna systemau digonol ar waith i gefnogi cynghorwyr gyda'i gwaith achos?<br><br>A yw'r gefnogaeth hon yn:<br><br>- darparu'n deg i bob aelod yn unol â phrotocol a gyhoeddwyd,<br>- eithrio gweithgareddau plaid wleidyddol,<br>- darparu'n gyfrinachol lle bo angen a chan roi sylw dyledus i gyfraith diogelu data a chyfraith gwybodaeth arall,<br>- gymesur ac yn cael ei ddarparu o fewn yr adnoddau sydd ar gael.<br><br>A roddir arweiniad i gynghorwyr ar reoli gwaith achos. Drwy systemau rheoli gwaith achos, er enghraifft? |
| **Goruchwyliaeth a diogelwch** | A oes gan y cyngor brotocolau clir ar waith ar gyfer sicrhau diogelwch personol a lles cynghorwyr, ac sydd wedi'u mynegi'n glir i gynghorwyr a'r cyhoedd?<br><br>A yw disgwyliadau a hygyrchedd y gymuned yn cael eu rheoli fel na chysylltir â chynghorwyr yn amhriodol?<br><br>A roddir gwybodaeth ac arweiniad i gynghorwyr ar reoli eu perthynas â'r cyhoedd a chynnal ffiniau priodol? |

| | |
|---|---|
| **Dysgu a Datblygu** | **Canlyniadau a geisir:**<br><br>**Mae gan gynghorwyr y sgiliau a'r wybodaeth i ddarparu'r hyn sydd ei angen ar bobl leol.** |
| **Thema** | **Cwestiynau a Awgrymir** |
| **Strategaeth Datblygu Cynghorwyr** | A oes gan y cyngor ddull effeithiol a diffiniedig o ddysgu a datblygu cynghorwyr, wedi'i gynnwys mewn strategaeth a gyhoeddwyd, sy'n cynnwys ymateb i anghenion a fynegwyd gan bob cynghorydd ac anghenion y sefydliad a'r gymuned? |
| **Adolygiadau datblygiad personol** | A yw'r cyngor yn darparu cefnogaeth bersonol ddefnyddiol i bob cynghorydd ac adolygiadau datblygu a gynhelir gan bobl sy'n gymwys i wneud hynny? |
| **Rhaglen dysgu a datblygu** | A oes gan y cyngor raglen ddysgu a datblygu flynyddol sy'n cael ei hyrwyddo'n llawn i gynghorwyr?<br><br>A all pob cynghorydd gael mynediad cyfartal at y rhaglen?<br><br>A yw'r rhaglen yn cael ei monitro, ei gwerthuso a'i diweddaru'n rheolaidd?<br><br>A yw cynghorwyr yn gallu nodi canlyniadau cadarnhaol o'r hyfforddiant, fel gwell dealltwriaeth a pherfformiad a chanlyniadau penodol i'r gymuned? |

| | |
|---|---|
| **Rhaglen Sefydlu** | A yw pob cynghorydd newydd neu gynghorydd sy'n dychwelyd yn cael rhaglen sefydlu gynhwysfawr, aml-sesiwn, wedi'i blaenoriaethu, sy'n galluogi i gynghorwyr gyfranogi'n effeithiol yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn y swydd? |
| **Ansawdd datblygiad** | A yw cynghorwyr yn credu bod y gweithgareddau dysgu yn ddigon ysgogol, perthnasol ac wedi'u darparu mewn arddulliau blaengar a phriodol?<br><br>A oes gan y cyngor ddull systematig ac effeithiol o gomisiynu, datblygu, darparu a gwerthuso ei weithgareddau hyfforddi a datblygu? |
| **Cyfranogiad** | A yw cynghorwyr yn manteisio ar yr holl gyfleoedd datblygu sy'n berthnasol iddynt?<br><br>A roddir sylw i unrhyw ddiffyg cyfranogiad? |
| **Dysgu oddi wrth eraill** | A yw cynghorwyr yn cymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu rhanbarthol a chenedlaethol a rennir?<br><br>A gaiff cynghorwyr eu hannog a'u cefnogi i gydweithio â chynghorau eraill a chyrff cenedlaethol i weithredu fel cymheiriaid gwleidyddol, mentoriaid ac mewn rhwydweithiau i rannu ymagweddau at rôl cynghorydd, nodi arfer da a chyfrannu at welliant a arweinir gan y sector? |



**Atodiad 2 – Cofnod o gyfarfod is-grŵp (19/09/2024)**

- Cynhaliwyd trafodaeth agored ar y 7 Pwnc o fewn y maes Dysgu a Datblygu mewn cyfarfod aml-leoliad gyda cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.

- Mae pob maes wedi cael ei rannu yn themâu a chwestiynau er mwyn annog trafodaeth ar y gweithdrefnau mwyaf addas i'r Cyngor o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

- Atodir y themâu a'r cwestiynau yn y ddogfen hon. Ystyriwyd:

1. Ydi'r maes o fewn rheolaeth y Cyngor (ynteu corff allanol)
2. Enghreifftiau o waith sydd yn cael ei gyflawni i ateb y cwestiynau
3. Unrhyw gryfderau trefniadau presennol
4. Meysydd y gellir eu gwella.

Yn dilyn yr ystyriaethau hyn, ystyriwyd os yw'r thema yn flaenoriaeth Isel, Ganolig neu Uchel i raglen waith y maes.

**Gweler grynhoad o'r trafodaethau penodol yn y ddogfen hon.**

| Pwnc 1: Strategaeth Datblygu Cynghorwyr |
| --- |
| A oes gan y Cyngor ddull effeithiol a diffiniedig o ddysgu a datblygu Cynghorwyr, wedi'i gynnwys mewn strategaeth a gyhoeddwyd, sy'n cynnwys ymateb i anghenion a fynegwyd gan bob Cynghorydd ac anghenion y sefydliad a'r gymuned? |
| **Mae'r maes hwn o fewn rheolaeth y Cyngor**.<br><br>**<u>Prif faterion yn codi o'r drafodaeth</u>**<br><br>**<u>Gwaith sydd eisoes ar y gweill</u>**<br>• Cadarnhawyd bod strategaeth yn cael ei ddarparu a'i addasu'n gyson ond nid yw'n cael ei gyhoeddi'n swyddogol i'r Aelodau.<br>• Eglurwyd bod penaethiaid adrannau'r Cyngor yn derbyn cais blynyddol am eu prif flaenoriaethau hyfforddiant er mwyn eu bwydo mewn i'r strategaeth. Mae Cynghorwyr hefyd wedi cael y cyfle i nodi pynciau o ddiddordeb penodol mewn holiadur anghenion dysgu a datblygu diweddar.<br>• Cytunwyd bod nifer uchel o gyfleoedd datblygiadol ar gael i Gynghorwyr.<br><br>**<u>Materion y gellir ystyried eu gwella</u>**<br>• Tynnwyd sylw bod rhai cyfleon datblygu yn dod ar e-bost ac eraill drwy gofrestru ar y system hunanwasanaeth. Ystyriwyd byddai'n symlach i unioni'r system gofrestru er mwyn annog mwy o gynghorwyr i fynychu.<br>    o Ar ôl trafodaeth bellach, cadarnhawyd bod ceisiadau i gofrestru i ddigwyddiadau yn digwydd ar ffurf cais cyfarfod / e-bost, fodd bynnag, os y cynigir mwy nag un dyddiad does dim opsiwn ond i gyfeirio Cynghorwyr i gofrestru i'r dyddiad maent yn ei ffafrio drwy'r system hunanwasanaeth.<br>• Esboniwyd nad oedd y gwahaniaeth rhwng y cyrsiau Craidd a'r hyfforddiant arall o bosib yn ddigon amlwg i Gynghorwyr. Teimlwyd ei fod yn bwysig i bwysleisio hynny ar ddechrau tymor etholiadol.<br>• Ystyriwyd ei fod yn ymarfer da i rannu gwybodaeth am hyfforddiant sydd ar gael gyda'r Cynorthwy-ydd Gwleidyddol er mwyn eu rhannu yn y cyfarfodydd Grŵp, fel eu bod yn gallu tynnu sylw'r Aelodau at y teitlau craidd sydd angen i bawb eu cwblhau.<br>• Nodwyd bod rhai aelodau yn cael trafferth canfod y Fewnrwyd Aelodau ar eu dyfeisiau a nodwyd ei fod yn bwysig unioni mynediad iddo ar gyfer pob aelod.<br><br>**Ystyriwyd bod y maes hwn yn flaenoriaeth uchel i'r rhaglen waith.** |

| Pwnc 2: Adolygiadau datblygiad personol |
| --- |
| A yw'r Cyngor yn darparu cefnogaeth bersonol ddefnyddiol i bob Cynghorydd ac adolygiadau datblygu a gynhelir gan bobl sy'n gymwys i wneud hynny? |
| **Mae'r maes hwn o fewn rheolaeth y Cyngor**.<br><br>**<u>Prif faterion yn codi o'r drafodaeth</u>**<br><br>**<u>Gwaith sydd eisoes ar y gweill</u>**<br>• Cadarnhawyd y cynnig agored sydd i bob Cynghorydd ddod i gyswllt gyda swyddogion Dysgu a Datblygu drwy'r Bwletin Aelodau wythnosol sy'n cael ei rannu ar e-bost.<br>• Nodwyd bod croeso i unrhyw Gynghorydd ddod i gyswllt er mwyn trafod eu rhaglen ddatblygu bersonol.<br>• Tynnwyd sylw am gefnogaeth bellach sydd ar y Fewnrwyd Aelodau am gefnogaeth megis cymhelliant, mentora a chwnsela.<br><br>**<u>Materion y gellir ystyried eu gwella</u>**<br>• Ystyriwyd y gallai Cynghorwyr gael cyfarfodydd rheolaidd gyda Cadeirydd eu Grŵp Gwleidyddol er mwyn trafod datblygiadau personol cyn rhannu adborth yn ôl gyda'r Tîm Dysgu a Datblygu.<br><br>**Ystyriwyd i'r pwnc hwn fod o flaenoriaeth isel i'r Rhaglen waith.** |

| Pwnc 3 : Rhaglen dysgu a datblygu |
| --- |
| 1. A oes gan y Cyngor raglen ddysgu a datblygu blynyddol sy'n cael ei hyrwyddo'n llawn i Gynghorwyr? |
| 2. A all pob Cynghorydd gael mynediad cyfartal at y rhaglen |
| 3. A yw'r rhaglen yn cael ei monitro, ei gwerthuso a'i diweddaru'n rheolaidd? |
| 4. A yw Cynghorwyr yn gallu nodi canlyniadau cadarnhaol o'r hyfforddiant, fel gwell dealltwriaeth a pherfformiad a chanlyniadau penodol i'r gymuned? |
| **Mae'r maes hwn o fewn rheolaeth y Cyngor**.<br><br>**Prif faterion yn codi o'r drafodaeth**<br><br>**Gwaith sydd eisoes ar y gweill**<br>• Cadarnhawyd bod y rhaglen ddatblygu flynyddol yn cael ei hyrwyddo'n llawn a bod modd cael mynediad cyfartal i'r rhaglen drwy'r Bwletin Aelodau wythnosol.<br>• Pwysleisiwyd bod y rhaglen yn cael ei fonitro, gwerthuso a'i ddiweddaru'n rheolaidd drwy'r cyfarfodydd misol Swyddogion Dysgu a Datblygu a Gwasanaethau Democratiaeth misol yn ogystal ag adrodd ar ddysgu a datblygu yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.<br>• Hyrwyddir y broses o gyflwyno ffurflen adborth yn dilyn pob sesiwn hyfforddiant ond cydnabuwyd nad ydi pob aelod yn gwneud hynny.<br><br>**Materion y gellir ystyried eu gwella**<br>• Daeth i'r amlwg nad oedd Cynghorwyr yn debygol o roi adborth os nad oeddent yn credu fod yr hyfforddiant/digwyddiad yn fuddiol. Pwysleisiwyd gan swyddogion y pwysigrwydd i wneud hynny er mwyn datblygu neu addasu'r ddarpariaeth i'r dyfodol.<br>• Tynnwyd sylw y gall mynediad i'r ffurflen adborth fod yn rhwystredig ar brydiau gan awgrymu byddai mwy o bobl yn llenwi'r ffurflen os byddai'n haws cael mynediad iddo.<br>• Argymhellwyd bod eitem am Ddysgu a Datblygu ynghyd ag unrhyw adborth o sesiynau hyfforddiant yn cael ei gynnwys fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y grwpiau gwleidyddol. Ystyriwyd y byddai hyn yn annog mwy o aelodau i'w mynychu ac hefyd yn gyfle i rannu ymateb gonest am y sesiynau ar lafar. Gall y Cynorthwywyr Gwleidyddol rannu unrhyw adborth gyda'r gwasanaeth Dysgu a Datblygu.<br><br>**Ystyriwyd y pwnc hwn i fod o flaenoriaeth ganolig i'r Rhaglen waith.** |

| Pwnc 4 : Rhaglen Sefydlu |
| --- |
| A yw pob Cynghorydd newydd neu Gynghorydd sy'n dychwelyd yn cael rhaglen sefydlu gynhwysfawr, aml-sesiwn, wedi'i blaenoriaethu, sy'n galluogi i Gynghorwyr gyfranogi'n effeithiol yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn y swydd? |
| **Mae'r maes hwn o fewn rheolaeth y Cyngor**.<br><br>**<u>Prif faterion yn codi o'r drafodaeth</u>**<br><br>**<u>Gwaith sydd eisoes ar y gweill</u>**<br>• Mae rhaglen dysgu a datblygu am y flwyddyn gyntaf yn dilyn etholiad yn gynhwysfawr iawn, yn canolbwyntio (yn y misoedd cyntaf) ar deitlau craidd a chyflwyniadau i wasanaethau.<br>• Mae Aelodau yn derbyn sesiynau anwytho ar gychwyn pob cyfnod yn dilyn etholiad.<br>• Mae rhaglen bwrpasol ar gyfer unrhyw aelod sydd yn cychwyn yn ystod tymor etholiadol, gan nodi bod y trefniadau hyn wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.<br><br>**<u>Materion y gellir ystyried eu gwella</u>**<br>• Derbyn adborth am y trefniadau anwytho gan Gynghorwyr sydd ar eu tymor cyntaf a'r aelodau hynny sydd wedi eu hethol yng nghanol y tymor etholiadol presennol.<br>• Nodwyd ei fod yn gyfrifoldeb ar y grwpiau gwleidyddol i sicrhau bod Cynghorwyr yn cyfranogi'n effeithiol yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn y rôlfel Cynghorydd.<br><br>**Ystyriwyd i'r pwnc hwn fod o flaenoriaeth isel i'r Rhaglen waith.** |

| Pwnc 5 : Ansawdd datblygiad |
|---|
| 1. A yw Cynghorwyr yn credu bod y gweithgareddau dysgu yn ddigon ysgogol, perthnasol ac wedi'u darparu mewn arddulliau blaengar a phriodol? |
| 2. A oes gan y Cyngor ddull systematig ac effeithiol o gomisiynu, datblygu, darparu a gwerthuso ei weithgareddau hyfforddi a datblygu? |
| **Mae'r maes hwn o fewn rheolaeth y Cyngor**.<br><br>**Prif faterion yn codi o'r drafodaeth**<br><br>**Gwaith sydd eisoes ar y gweill**<br>• Mae gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar dendro CLlLC gyda rhestr darparwyr er mwyn datblygu, darparu a gwerthuso ei weithgareddau hyfforddi a datblygu.<br>• Teimlwyd bod derbyn cyfle i fynychu hyfforddiant aml-leoliad yn fantais fawr ac yn sicrhau cyfle cyfartal.<br><br>**Materion y gellir ystyried eu gwella**<br>• Addasu ffurflen adborth digwyddiadau er mwyn derbyn mewnbwn os yw'r hyfforddiant yn ddigon ysgogol, perthnasol ac wedi ei ddarparu mewn arddull blaengar a phriodol.<br>• Nodwyd bod rhai teitlau hyfforddiant angen cael eu haddasu er mwyn bod yn fwy effeithiol yn rhithiol, gan eu bod wedi bod yn cael eu cyflwyno mewn dull wyneb i wyneb yn wreiddiol.<br><br>**Ystyriwyd i'r pwnc hwn fod o flaenoriaeth isel i'r Rhaglen waith.** |

| **Pwnc 6 : Cyfranogiad** |
|---|
| 1. A yw Cynghorwyr yn manteisio ar yr holl gyfleoedd datblygu sy’n berthnasol iddynt? |
| 2. A roddir sylw i unrhyw ddiffyg cyfranogiad? |

**Mae’r maes hwn o fewn rheolaeth y Cyngor**.

**Prif faterion yn codi o’r drafodaeth**

**Gwaith sydd eisoes ar y gweill**

- Tynnwyd sylw bod rhai cynghorwyr yn mynychu hyfforddiant yn gyson a rhai eraill ddim yn mynychu o gwbl.
- Mae sylw yn cael ei roi ar hyn o bryd i ddiffyg presenoldeb yn yr hyfforddiant craidd drwy gyfarfodydd gydag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol.
- Pwysleisiwyd bod trefniadau cadarn mewn lle er mwyn rhoi hyfforddiant i aelodau Pwyllgor Cynllunio a Phwyllgor Trwyddedu cyn i’r Cynghorwyr fynychu eu Pwyllgor cyntaf.
- Nodwyd bod hyfforddiant yn cael ei recordio mewn rhai achosion er mwyn ei roi ar y fewnrwyd aelodau fel bod unrhyw un yn gallu ei wylio ac atgoffa eu hunain o’r cynnwys, neu ei wylio am y tro cyntaf os nad oeddent yn gallu mynychu’r sesiwn byw.

**Materion y gellir ystyried eu gwella**

- Cydnabuwyd bod nifer o Gynghorwyr yn ei weld yn heriol i ymateb i holl ofynion y rôl yn ogystal â chyfrifoldebau ychwanegol.
- Eglurwyd bod nifer o Gynghorwyr yn llywodraethwyr mewn ysgolion yn y Sir ac yn gwneud nifer o’r teitlau craidd yn y rôl honno. Nodwyd byddai prawf o’r hyfforddiant hwnnw yn lle gofyn i aelodau fynychu’r hyfforddiant yn eu rôl fel Cynghorwyr yn effeithiol iawn.
    - Yn dilyn y cyfarfod, cynhaliwyd trafodaethau rhwng Swyddogion a’r Pennaeth Cynorthwyol Diogelu ac Ansawdd y Cyngor. Esboniwyd nad oes modd peidio mynychu y teitl craidd ‘ Diogelu Plant ac Oedolion’, gan bod ffocws y sesiwn hwn yn wahanol i’r un a geir yn eu rôl fel Llywodraethwyr a Llywodraethwyr Dynodedig Diogelu Plant.
- Awgrymwyd atgoffa’r Arweinyddion Grwpiau a’r Cynorthwy-ydd gwleidyddol i annog aelodau i gwblhau hyfforddiant craidd gan nodi pwysigrwydd y teitlau.
- Ystyriwyd bod angen addasu trefniadau anwytho er mwyn sicrhau bod y modiwlau craidd yn derbyn sylw.
- Nodwyd y gellir cynnal hyfforddiant i staff a Chynghorwyr gyda’i gilydd er mwyn bod yn fwy effeithiol ac arbed arian.
- Annog Aelodau i roi gwybod os nad ydynt yn mynychu hyfforddiant er mwyn gallu ei ganslo neu gynnig lle i rhywun arall.

**Ystyriwyd i’r pwnc hwn fod o flaenoriaeth ganolig i’r Rhaglen waith.**

| Pwnc 7 : Dysgu oddi wrth eraill |
|---|
| 1. A yw Cynghorwyr yn cymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu rhanbarthol a chenedlaethol a rennir? |
| 2. A gaiff Cynghorwyr eu hannog a'u cefnogi i gydweithio â chynghorau eraill a chyrff cenedlaethol i weithredu fel cymheiriaid gwleidyddol, mentoriaid ac mewn rhwydweithiau i rannu ymagweddau at rôl cynghorydd, nodi arfer da a chyfrannu at welliant a arweinir gan y sector |
| **Mae'r maes hwn o fewn rheolaeth y Cyngor**.<br><br>**<u>Prif faterion yn codi o'r drafodaeth</u>**<br><br>**<u>Gwaith sydd eisoes ar y gweill</u>**<br>• Mae Cynghorwyr yn manteisio ar gyfleoedd datblygu rhanbarthol a chenedlaethol.<br><br>**<u>Materion y gellir ystyried eu gwella</u>**<br>• Cydnabuwyd bod lle i gydweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill a bod hyn yn fwy tebygol o ddigwydd wrth i dymor etholiadol fynd yn ei flaen.<br><br>**Ystyriwyd i'r pwnc hwn fod o flaenoriaeth ganolig i'r Rhaglen waith.** |